

**COFNODION CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWDY YN NEUADD GYMUNEDOL,
DYFFRYN ARDUDWY AM 7.30 O'R GLOCH 07.06.16**

6.1 YMDDIHEURIADAU

Cyng. Emrys Jones (Is-Gadeirydd), John Ceri Evans, John Ellis Williams, Owen Gwilym Thomas.

6.2 PRESENNOL

Cyng. Edward Griffiths (Cadeirydd), Edward Williams, Catrin Edwards, Sian Edwards, Margretta Cartwright, Sion Ifor Williams, Mike Tregenza, Eryl Jones-Williams.

6.3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Nid oedd ddim cyhoeddiadau i'w gwneud

6.4 COFNODION

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Mai 3ydd fel rhai cywir.

6.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION

Item 5.9 (A) yn absenoldeb y Cyng. Owen Gwilym Thomas adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost ganddo yn datgan bod yr hyn a oedd wedi ei gyfeirio ato wrth ymadael ar Gadair yn y cyfarfod diwethaf heb ei gofnodi sef "ei fod wedi bod yn gwbwl onest wrth fobl Dyffryn a Talybont bod ei amser fel Cadeirydd wedi bod yn ddi werth ag yn wastraff o ddwy flynedd. Bod yn iawn i fobl yr ardal gael gwybod y defnydd sydd yn cael ei wneud o'i harian am bod yr arian yn cael ei roi i'r Cyngor i wneud gwahaniaeth yn y ddau bentref ac os ydym ddim yn gallu gwneud hyn, fel Cynghorwyr, ein bod ni ddim i fod yna".

6.6 DATGAN DIDDORDEB

Datganodd y Cyng. Edward Williams ddiddordeb yng nghais cynllunio Bron Werydd, Dyffryn Ardudwy ac fe arwyddwyd dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo.

Datganodd y Cyng. Eryl Jones Williams ddiddordeb yng nghais ariannol Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy ac fe arwyddwyd dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo.

Datganodd y Cyng. Eryl Jones Williams ddiddordeb yng nghais ariannol Ysgol Ardudwy ac fe arwyddwyd dogfen Datgan Buddiant Personol ganddo.

6.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod ers y cyfarfod diwethaf wedi mynychu y canlynol:- Mai 9ed hyfforddiant dementia Porthmadog, 10ed Fforwm Mynediad De Eryri, Bontddu, Abergwynant, Dinas Mawddwy, Aberdyfi a Tywyn, 12ed Cyngor Llawn, Caernarfon, 18ed arsylwi Parc Cenedlaethol Eryri, 19ed ymchwiliad Ysbyty Alltwen, linc fidio Dolgellau, 20ed Cyngor Pobl Hyn Gwynedd, Porthmadog, Fforwm Lein y Cambrian Porthmadog, 23ain Ysgol Dyffryn, 24ain Fforwm Mynediad Meirionnydd Dolgellau, 25ain Trwyddedu Caernarfon, 26ain 9-12 Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol Caernarfon, 1-4 Cyflwyniad Ffeiliau Cynydd, Ysgol Ardudwy, 8-10 cyfarfod blynydd neuadd bentref.

Mae Cyngor Gwynedd yn cefnogi y sefydlu o grwpiau cefnogi dementia a mae un wedi cael ei godi yn Mhorthmadog. Yn ystod yr hyfforddiant fe amlygwyd y ffaith bod pobl gyda dementia a'i teuluoedd yn anfodlon edrych am help nes byddai y dementia yn gweathygu. Edrych am help yn gynnar yn bwysig iawn a fe dderbyniodd y cyfarfod bod pobl eisiau dal eu gafael yn eu anibyniaeth mor hir a phosib. Mae llwybr newydd i'r anabl sydd yn hygyrch i gadair olwyn o maes parcio Farchynys, Bontddu lawr i'r ynys nawr yn agored a bydd y Parc Cenedlaethol yn hyrwyddo llwybrau newydd gan gynnwys Farchynys ag Abergwynant yn y dyfodol agos. Cyn cyfarfod llawn o'r Cyngor fe wnaeth y grwp annibynnol amlygu y ffaith bod busnesau lleol yn colli contractau i gwmnïau tu allan i'r Sir ag mewn un achos lle gollodd becws gontract ysgol fe gollodd pump aelod o staff ei swydd. Mae cwmni trydan lleol wedi colli contract i gwmni o tu allan i'r ardal ag y diswyddo staff. 'Roedd trafodath bywiog ar darparu cig i ysgolion gyda un ysgol yn archebu biff o wlad pwyl. Fe wnaeth y Cyngor benderfynnu talu y cyflog uchaf i aelodau y Cabinet sef £29k yn lle £26k a £23k i Gadeiryddion pwyllgorau a ddim £20k ag hefyd gafodd argymhellaid y dylai Cynghorwyr gael llai o gyflog ei golli. Mae tri o Gynghorwyr Gwynedd o Arfon wedi ymddiswyddo o Gwynedd am resymau gwahanol.

Mae Gwynedd wedi mabwysiadu cyfeiriad e-bost Gwynedd.llyw.cymru. Mewn cyfarfod o ymchwiliad Ysbyty Alltwn 'roedd teimlad bod y sustem Vanguard newydd o wneud cynlluniau gofal i gyfarfod a gofynion y gwahanol gleifion yn cael ei redeg allan i gyfro ardal ehanghach. Mae pryderon ynglyn a GIC yn gweithio 24/7 a assesswyr gwasanaeth cymdeithasol ddim yn gweithio ar ol 4.00 o'r gloch ar ddydd Gwener. Nid oedd cyflenwyr o offer cartref i gleifion ddim yn cyrraedd angen y cleifion a mae hynny yn mynd i gael ei archwilio ymhellach. Fe gytunodd y pwyllgor gwasanaethau dylai y gwaith gael ei estynu. 'Roedd Fforwm Mynediad Meirionnydd yn bryderus bod toiledau cyhoeddus yn cau a cynllun i godi tal am gasglu biniau brown. Cefais fy ail ethol yn is-gadeirydd y grwp Mynediad ag yn y cyfarfod diwethaf 'roedd pump maer neu gyn faer yn y grwp. Cafodd parcio ar gerbiau wedi disgyn ei amlygu yn broblem fawr. Fe dderbyniodd nifer o ddisgyblion blwyddyn 11 eu ffeiliau cynydd yn Ysgol Ardudwy gan Arglwydd Dafydd Elis-Thomas. Fe ddaeth 14 o fobl gan gynnwys aelodau iau i gyfarfod blynyddol y neuadd bentref, cafodd y Cyng. O. G. Thomas ei ail ethol yn gadeirydd, a dwi yn siwr y bydd yn adrodd ar ganlyniad y cyfarfod pan gafodd ei bwysleisio dylai mwyafrif o gostau y gwaith trwsio ei dalu gan y Cyngor Cymuned a mae taflen ariannol ar gael. Fe dderbyniais gwynion bod goleuadau traffic ger yr ysgol yn Dyffryn ar ddydd Mawrth ar ol gwyl y banc ac fe pasiwyd ymlaen i'r priffyrdd a gafodd y goleuadau eu tynnu i fwrdd yn fuan wedyn. Mae llinellau melyn dwbl wedi cael eu gosod o flaen y garje ganol a dylai hyn helpu i'w wneud yn mwy ddiogel i blant gerdded i'r ysgol a mamau hefo pram. Mae Trenau Arriva Cymru eisiau i Lywodraeth Cymru dalu cyflog gweithiwr ychwanegol er mwyn i'r tren 8.00 o'r gloch i'r gogledd o Bermo stopio mewn pentrefi a mae cwynion wedi mynd i Lywodraeth Cymru. 'Rwyf ar gael ar 01341242758 neu 07796833767 neu e.joneswilliams@btinternet.com Cytunwyd anfon llythyr at y Swyddfa Bost yn gofyn pam bod swyddfa bost y pentref ddim wedi agor ar amser yn dilyn y gwaith adnewyddu.

6.8 CEISIADAU CYNLLUNIO

Amnewid garej sengl presennol gyda garej dwbl newydd - Y Waun, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/119C)

Cefnogi y cais hwn.

Codi estyniad unllawr - Bronant, Talybont (NP5/58/579)

Cefnogi y cais hwn.

Creu mynediad newydd i gerbydau oddi ar enclifa ar y A496 a ffurfio dreif newydd - Bryn y Bwyd, Talybont (NP5/58/58D)

Cefnogi y cais hwn.

Gosod ffenestri to, insiweiddio'r wal allanol, adeiladu garej ac ymestyn feranda ac teras y gardd - Bron Werydd, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/585)

Cefnogi y cais hwn.

Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt

Caniatad Hysbyseb i arddangos un panel gwybodaeth - Gwarchodfa Natur Cenedlaethol Morfa Dyffryn, Talybont (NP5/58/AD583) - caniatâu

Caniatad Hysbyseb i arddangos un panel gwybodaeth - Gwarchodfa Natur Cenedlaethol Morfa Dyffryn, Talybont (NP5/58/AD583) - caniatâu

Codi garej a gweithdy (i ddisodli y gweithdy presennol) - Streamside House, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/581) - caniatâu

Dymchwel rhan o'r neuadd bresennol ac adeiladu 1 ty fforddiadwy a gosod tanc olew 1000 litr - The Old Womens Institute Hall, Talybont (NP5/58/572) - caniatâu

6.9 MATERION YN CODI

A Cynllun Busnes

Adroddwyd bod £6,100.07 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd.

B Camerâu CCTV

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams bod ddim i'w adrodd ar y mater uchod ar hyn o bryd.

C Neuadd Bentref

Oherwydd absenoldeb y Cyng. Owen Gwilym Thomas nid oedd yn bosib cael adroddiad o gyfarfod blynyddol pwyllgor yr uchod.

D Archwilio'r lloches bws, mynwentydd a parciau chwarae

Adroddodd y Cyng. Edward Griffiths ei fod wedi gwneud yr archwiliad uchod ar ran y Cyngor ac adroddodd fel a ganlyn - bod y llochesi bws yn iawn, 'roedd y ddau barc chwarae yn iawn, 'roedd y fynwent gyhoeddus yn iawn. 'Roedd mynwent Llanddwywe a mynwent Llanenddwyn yn iawn ond bod angen gosod gwydr ar postyn lamp rhif 23 ger Llanenddwyn a bod y gwair angen ei dorri yn y ddwy fynwent, 'roedd gardd Penybont yn iawn ond bod angen seddi newydd yna a cytunwyd bod y pwyllgor seddi yn delio gyda hwn, ac 'roedd Parc Morlo yn iawn ond bod y bin angen ei gwagio. Cytunwyd gofyn i'r Cyng. Emrys Jones wneud yr archwiliad y mis nesa.

E Gwefan y Cyngor

Adroddodd y Cyng. Mike Tregenza ei fod wedi cael gafael ar safle wefan a fyddai yn fodlon cymeryd cymraeg a saesneg a cytunwyd bod y Cyng. Tregenza yn cario ymlaen a gofyn i gwmni Quick & Simple am bris.

F Gwaith Cymunedol gan Ddisgyblion Ysgol Ardudwy

Cytunwyd gofyn i'r disgyblion uchod gario allan y gwaith o lanhau y traeth yn Dyffryn Ardudwy a Talybont a cytunodd y Cadeirydd ar Cyng. Mike Tregenza ddelio gyda'r mater yma gyda cymorth gan Mrs Dianne Tregenza a Mrs Tina Triggs.

G Cyfarfod Un Llais Cymru - Tywyn 25.5.16

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu y cyfarfod uchod ar ran y Cyngor ag adroddodd fel a ganlyn - bod y Cyng. Heulyn Williams, Dolgellau wedi ei ethol yn Gadeirydd ar Cyng. Bryn Jones, Trawsfynydd yn Is-Gadeirydd. Ni ddaeth Mr. Jonathan Cawley o'r Parc Cenedlaethol a oedd i fod i annerch yr aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd wybod bod Rheolwyr lein y Cambrian methu a cael swyddogion Trennau Arriva i siarad gyda hwy ag hefyd 'roedd cwynion bod y cyrsiau hyfforddi oedd Un Llais Cymru yn ei gynnig yn cael eu cynnal rhy bell.

6.10 GOHEBIAETH

A Cyngor Gwynedd - Adran Rheoleiddo

Wedi derbyn llythyr gan yr uchod ynglyn ac ad-dalu am dorri gwair y llwybrau cyhoeddus yn y gymuned ag yn datgan yn sgil y torriadau sydd yn cael ei gwneud bydd y drefn hyn yn newid o hyn ymlaen ar uchafswm fydd y Cyngor yn gallu ei hawlio yw 75% o'r taliad yn 2016/17 sef £793.88.

B Cyngor Gwynedd - Adran Cefnogaeth Corfforaethol

Wedi cael llythyr gan yr uchod yn datgan bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gyfrifol am Wynedd angen dod i gytundeb ar y cymunedau is-sirol a chyn hynny mae Cyngor Gwynedd yn awyddus i drafod yr union ardaloedd i'w hargymell i'r Bwrdd gyda thrigolion y sir ag yn gofyn am sylwadau y Cyngor ar yr ardaloedd cymunedol hyn. Cytunwyd anfon sylwadau gan ddatgan bod y Cyngor hwn yn anfodlon o cael ei gynnwys yn rhan o Ddolgellau ag ei fod eisiau ei gadw yn dalgylch Ardudwy fel a oedd wedi cael ei gytuno yng nghyfarfod diwethaf Fforwm Ardal Meirionnydd.

C Cyngor Gwynedd - Adran Cyfreithiol

Wedi cael e-bost gan yr uchod ynghyd a chopi o Ddiwygiad i'r Cod Ymddygiad i Aelodau ag yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadu'r newidiadau i'r Cod Ymddygiad. Hefyd yn datgan bod yn ofynnol i bob Cyngor gyhoeddi rhybudd mewn papur newydd yn datgan eu bod wedi diwygio eu Cod a bod copi ar gael i'r cyhoedd i'w weld. Yn datgan ymhellach mewn ymgais i geisio arbed y costau i Gyngorau Cymuned a Thref o gyhoeddi rhybudd bod Cyngor Gwynedd yn fodlon cynnwys ein Cyngor yn eu rhybudd nhw os byddant yn cael cadarnhad bod yr Aelodau wedi mabwysiadu'r newidiadau. Ar ol trafodaeth ynglyn ar Cod Ymddygiad cytunwyd yn unfrydol i fabwysiadu y newidiadau dan sylw a gofyn i Gyngor Gwynedd ein cynnwys yn eu rhestr nhw yn y papur newydd.

D Cyngor Gwynedd - Adran Priffyrdd

Wedi cael ateb gan yr uchod ynglyn a materion a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor ag yn datgan eu bod yn nodi pryder y Cyngor ynglyn a un o'r pileri ar waelod Ffordd Gors y Gedol ag oherwydd bod y piler dan sylw yn rhan o'r wal derfyn mae cyfrifoldeb y perchennog tir i'w ei gynnal. Hefyd yn datgan ymhellach eu bod yn trefnu i'r Arolygwr asesu'r safle ar sail diogelwch defnyddwyr y ffordd. Hefyd yn datgan bod ymylon Ffordd Gors y Gedol yn breifat a chyfrifoldeb y perchennog yw ei chynnal ond hwyrach byddai Gorfodaeth Stryd gyda phwerau petai yn beryg a byddai Bethan Owen mewn sefyllfa i roi cymorth i'r Cyngor ag eu bod wedi gofyn iddi gysylltu yn uniongyrchol ar Cyngor ynglyn ar mater yma.

E Cyngor Gwynedd - Adran Priffyrdd

Adroddodd y Clerc ynglyn ar llythyr yn gofyn am loches bws ger y neuadd bod ateb wedi dod o Gaernarfon yn datgan nid oes posib gosod un yn y safle yma oherwydd fyddai yn effeithio ar lif y traffic ag hefyd bod canllawiau y dylid ddim gosod safleoedd bws o fewn 250m i'w gilydd a bod yr un agosaf ddim ond 140m i ffwrdd. Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod wedi ymateb i'r e-bost hwn yn datgan ei fod ddim yn cytuno gyda'r penderfyniad hyn am fod cynlluniau i gau y toiled yn y pentref byddai defnydd o doiled y neuadd yn cael ei wneud, a bod cynlluniau gan y Cyngor Cymuned i ymestyn maes parcio y neuadd bentref er mwyn helpu Cyngor Gwynedd gyda problemau parcio yn y pentref.

F Parc Cenedlaethol Eryri

Wedi cael llythyr gan yr uchod ynghyd a dyddiadau o bryd mae pwyllgorau yr Awdurdod yn cael eu cynnal er gwybodaeth i'r Cyngor.

G Parc Cenedlaethol Eryri

Wedi cael llythyr gan yr uchod yn gwahodd Aelodau o'r Cyngor i'r cyfarfod blynyddol sydd yn cael ei gynnal rhwng yr Awdurdod ar Cynghorau Cymuned a Thref a bod y cyfarfod agosaf i ni yn cael ei gynnal yn Coed y Brenin, Dolgellau ar y 18ed o Orffennaf rhwng 6.00 a 9.00 o'r gloch. Penderfynwyd bod y Cyng. Eryl Jones Williams a Mike Tregenza yn cynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod hwn.

H Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy

Wedi cael e-bost gan yr uchod yn datgan bod yr ysgol gynradd ar cylch meithrin ar hyn o bryd yn cyd-weithio ar "prosiect yr ardd" sef lle i'r plant fynd ati i ddysgu sut i blannu a thyfu blodau a'u gweld yn datblygu ag yn gofyn a fyddai y Cyngor yn fodlon rhoi cyfraniad ariannol tuag at y cynllun hwn. Penderfynwyd i beidio a cyfranu yn ariannol iddynt ond eu helpu i gael nwyddau i ddatblygu yr ardd dan sylw.

6.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD

Adroddodd y Trysorydd bod £15,526.63 yn y cyfrif rhedegol, £1,319.62 yng nghyfrif y cae chwarae, £7,538.65 yn y cyfrif wrth gefn a £33.00 yng nghyfrif y Cadeirydd.

Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Mrs Annwen Hughes	- £147.00 (cyflog) + £206.30 costau = £353.30
Mr. Gary Martayn	-£1,352.00 - torri gwair y fynwent a parciau chwarae x 2
Mr. M. J. Kerr	- £380.00 - agor bedd y diweddar Mrs Myfanwy Jones
Mr. M. J. Kerr	- £80.00 - agor bedd y diweddar Miss Mary Elizabeth Williams (llwch)
Mr. M. J. Kerr	- £400.00 - agor bedd y diweddar Mrs Doreen Chapman
Mr. M. J. Kerr	- £380.00 - agor bedd y diweddar Mrs Mavis Duffy

Mr. M. J. Kerr - £80.00 - agor bedd y diweddar Ms Irene Richards (llwch)
Mr. M. J. Kerr - £380.00 - agor bedd y diweddar Mr Joseph Kenneth Willetts
Mr. Eurig Hughes - £86.00 - torri gwair mewn gwahanol leoliadau
Mr. G. J. Williams - £104.15 - archebu a plannu blodau ger toiledau Talybont

Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf

Cyngor Gwynedd - £10,000.00 - hanner y precept
Glyn Rees a'i Fab - £580.00 - claddu y diweddar Mrs Mavis Duffy
Pritchard a Griffiths - £580.00 - claddu y diweddar Mrs Myfanwy Jones
Pritchard a Griffiths - £178.00 - claddu llwch y diweddar Miss Mary Elizabeth Williams
Aubrey Kirkham - £580.00 - claddu y diweddar Mr Joseph Kenneth Willetts

Ceisiadau am gymorth ariannol

Ysgol Ardudwy - £200.00

Anfonebau wedi eu talu ers y cyfarfod diwethaf

Catrin Sorya Williams - £156.12 - cyfieithu

6.12 UNRHYW FATER ARALL

Adroddodd y Clerc, yn absenoldeb y Cyng. Owen Gwilym Thomas ei bod wedi derbyn e-bost ganddo yn datgan bod y llinellau melyn dwbwl ger Dynstil House, Ffordd y Stesion wedi cael eu diddymu ag yn gofyn a yw'r Aelodau yn cofio trafod diddymu y llinellau dan sylw mewn cyfarfod o'r Cyngor, am bod ganddo ychydig o go i'r Cyngor weithio yn galed i gael y llinellau hyn yn y lle cyntaf. Hefyd yn datgan bod Swyddog o Gyngor Gwynedd wedi dweud wrtho dylai y mater yma wedi cael ei drafod gan yr Aelodau.

Datganwyd pryder gan y Cyng. Mike Tregenza bod ymateb byth wedi cael ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd ynglyn a gosod bin ysbwriel ger y traeth yn Talybont.

Datganwyd pryder bod y gwair ochor y ffyrdd ddim byth wedi cael ei dorri.

Eisiau tynnu sylw Cyngor Gwynedd at y peryglon sydd ger groesffordd Llanddwywe yn enwedig pan mae gwasanaethau yn cael eu cynnal yn yr eglwys.

Adroddodd y Cyng. Margretta Cartwright ei bod wedi derbyn sylwadau bod pigion o'r cofnodion byth yn cael eu rhoi yn Llais Ardudwy ar Cambrian News mwyach a cytunwyd i roi y mater hwn ar agenda mis nesa.

ARWYDDWYD.....Cadeirydd

DYDDIAD.....